Y BUSNES O AILGYLCHU THE BUSINESS OF RECYCLING | WRAP CYMRU

# Y Busnes o Ailgylchu – Gweminarau

## 7 Tachwedd 2024 2:30 pm

## Cwestiynau ac Atebion

Mae'r ddogfen hon yn cyflwyno atebion WRAP Cymru i'r cwestiynau a ofynnwyd gan fynychwyr yn ystod y gweminar Holl Sectorau.

**Cod Ymarfer –** Casglu Deunyddiau Gwastraff ar wahân i Ailgylchu: Cod Ymarfer Cymru | LLYW.CYMRU

Gwefan y Busnes o Ailgylchu – Canllawiau y Busnes o Ailgylchu Cymru ar gyfer holl weithleoedd (wrapcymru.org.uk)

| | |
|---|---|
| I fod yn glir, ar safleoedd Adeiladu, a fydd angen gwahanu unrhyw ddeunydd pacio cerdyn/plastig? | Cyfeiriwch at Atodiad 2 yn y Cod Ymarfer am y rhestr lawn o ddeunyddiau gofynnol |
| Fel casglwr gwastraff, allwch chi wrthod deunyddiau plastig untro? | Mae nifer o eitemau sydd nawr wedi'u gwahardd dan y rheoliadau a soniwyd amdanynt yn y gweminar. Deddf Diogelu'r Amgylchedd (Cynhyrchion Plastig Untro) (Cymru) 2023<br><br>Ar gyfer unrhyw eitemau plastig eraill gallech siarad â'r sawl sy'n cynhyrchu'r gwastraff ac awgrymu ei fod yn dod o hyd i ddewisiadau eraill os nad ydych yn gallu ei gasglu ac ailbrosesu. |
| A oes yna unrhyw gynlluniau i lunio dogfennau canllaw ar gyfer y GIG, os gwelwch yn dda? | Oes, mae hyn yn cael ei gynllunio ar hyn o bryd. |
| A oes gennych ganllawiau ar sut i sicrhau cadwyn gyflenwi ar gyfer casgliadau ad-hoc h.y. lle gellid bod angen bin am gwpl o wythnosau | Nid oes gennym ganllawiau ar hyn ar hyn o bryd. Awgrymir ichi siarad â'ch darparwr gwasanaeth gwastraff presennol |
| Yn ein profiad ni, gallwn ddod o hyd i atebion contractwyr ar gyfer yr holl ffrydiau – o sachau a delir amdanynt ymlaen llaw i finiau 1100 litr – heblaw am wydr. Dydyn nhw ddim yn darparu casgliadau sachau, wrth reswm, a bin 240 litr yw'r lleiaf sydd ar gael, a byddai'n cymryd misoedd i lenwi un o'r rheiny. Syniadau? | Gellid defnyddio cadis bwyd mwy i storio meintiau bach o wydr cyn ei gasglu. |
| Un broblem sydd gennym yw bod pobl eraill yn ymyrryd â'n biniau ni. Mae hyn yn digwydd hyd yn oed pan fyddwn yn eu cloi. Caiff pethau eu rhoi ynddyn nhw, caiff y cynnwys ei gymysgu. Allwn ni ddim gwneud i ffwrdd â hyn. A fydd yna ymateb cymesur gan CNC i achosion pan fo hyn yn arwain at halogiad ynteu a ydyn ni mewn perygl o gael dirwy beth bynnag? | Mae cael rheolaeth lawn ar eich gwastraff a'i ddiogelu yn ofyniad dan Gwastraff: Dyletswydd Gofal yn ogystal â bod yn ystyriaeth nawr o dan y Gofynion i Wahanu er mwyn lleihau halogiad. Pan fo diffyg cydymffurfio yn digwydd, bydd CNC yn ystyried yr holl ffactorau ym mhob achos unigol wrth ystyried y camau gweithredu mwyaf priodol a chymesur mewn ymateb i'r drosedd. |

| | |
|---|---|
| Problem arall yw, lle mae gennym landlord yn darparu cyfleusterau gwastraff safle, nid ydynt bob amser wedi ymroddi i'r rheoliadau. Yr unig safle nad oedd yn cydymffurfio a ddarganfyddais pan wnes i wirio'n ddiweddar oedd un lle mae'r landlord yn mynnu bod yr holl wastraff yn mynd i ardal sydd â chawell canolog, ac yn darparu biniau gwastraff cymysg yn unig. Rydym wedi bod mewn cysylltiad ag asiant y landlord, ond mae hon yn broses ddiflas, hirfaith a hyd yn hyn nid yw wedi arwain at unrhyw newid hyd y gwn i. Hoffwn ddatrys hyn ond eto ai ein cyfrifoldeb ni yw os bydd hyn yn arwain at ddiffyg cydymffurfio? | Fel cynhyrchydd eich dyletswydd yn ôl y gyfraith yw cyflwyno'r gwastraff ar wahân ac mae'r landlord hefyd yn rhannu'r ddyletswydd hon.<br><br>Gellir rhoi gwybod i CNC am unrhyw safleoedd nad ydynt yn cydymffurfio trwy eu porth rhoi gwybod am ddigwyddiadau – Cyfoeth Naturiol Cymru / Rhoi gwybod am ddigwyddiad |